

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

Tendr Cylchgronau Cymraeg

ar gyfer
2016-19

Canllawiau penodol ar gyfer y ddarpariaeth lenyddol

1 AMCANION

Amcan y cynllun yn gyffredinol yw sicrhau cyhoeddi amrywiaeth o gylchgronau Cymraeg bywiog ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n cynnwys ysgrifennu da a lle bo hynny'n briodol, newyddiaduraeth safonol, adolygiadau a thrafodaethau ar nifer o bynciau amrywiol. Amcan yr alwad hon yw sicrhau darparu cylchgrawn yn benodol i wasanaethu'r maes llenyddol.

2 CEFNDIR

Mae'r gyllideb gyfan ar gyfer cylchgronau yn £350,000 y flwyddyn, a'r gyllideb ar gyfer y ddarpariaeth lenyddol yn £20,000. Mae'r arian hwn yn rhan o'r Grant Cyhoeddi a ddaw oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae'r broses yn agored i deitlau sy'n rhan o'r ddarpariaeth bresennol, teitlau sydd eisoes yn bod ond ddim yn derbyn nawdd, ac i syniadau newydd sbon fel ei gilydd, ar ffurf ddigidol a phrintiedig neu gyfuniad o'r ddau.

Nid yw cyfanswm y gyllideb yn debyg o gynyddu dros gyfnod y tendr hwn; yn wir, gwneir unrhyw gynnig yn amodol ar barhad y cyllid gan Lywodraeth Cymru

3 MEYSYDD Y DYMUNIR EU GWASANAETHU

Nod cyffredinol y cynllun yw sicrhau amrywiaeth o gyhoeddiadau heb gyfaddawdu ar eu safon. Nod yr alwad hon yw sicrhau darpariaeth yn y maes:

- Llenyddol – penodol i un ffurf llenyddol neu ar draws rhychwant o ffurfiau.

Ni ragwelir cefnogi mwy nag un cylchgrawn ar union yr un pwnc/thema. Eisoes dyfarnwyd grant i *Barddas* i wasanaethu maes barddoniaeth yn benodol.

4 CYMHWYSTER

Nid yw'r cynllun yn cefnogi:

- cylchgronau addysgol. Cyfrifoldeb Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru, yw'r rhain.
- cylchgronau sy'n perthyn i fudiadau arbennig, oni bai bod y mudiad yn gyffredinol ei apel a'r deunydd o ddiddordeb i rai y tu allan i'r mudiad;
- cylchgronau lleol eu hapêl. Cyfyngir cefnogaeth i gylchgronau cenedlaethol neu gyhoeddiadau sy'n cyrraedd cynulleidfa eang iawn mewn rhan helaeth o'r wlad.

5 BLAENORIAETHAU A MEINI PRAWF AR GYFER CLORIANNU CEISIADAU

Cloriennir ceisiadau yn ôl y meini prawf canlynol.

Cyrhaeddiad:

O fewn y maes yr anelir ato disgwylir bod y cyhoeddiadau yn cyrraedd cynifer o ddarllenwyr potensial â phosibl. Disgwylir gweld ymdrech wirioneddol i gyrraedd, cadw a denu darllenwyr. Yn hynny o beth cloriennir:

- Cynlluniau hyrwyddo a marchnata

- Cynlluniau digidol
- Cynllun cyhoeddi a'r gallu i gadw at amserlen gyhoeddi
- Cynlluniau dosbarthu

Safon:

Er mwyn cyrraedd y potensial a amlinellir uchod mae safon y cyhoeddiad yn allweddol. Disgwylir golygu bywiog a thrylwyr, a dylunio a chynhyrchu pwrpasol fydd yn cynorthwyo i gyrraedd y gynulleidfa darged. Yn hynny o beth cloriennir:

- Gweledigaeth olygyddol
- Polisi gweledol
- Polisi cynhyrchu

Lefel nawdd/incwm:

Er mwyn sicrhau hyfywedd y teitl a gwerth am arian i'r grant, cloriennir:

- Rhagolygon gwerthiant
- Rhagolygon denu nawdd, cyllid a chyfraniadau mewn nwyddau (*in-kind*)
- Polisi prisio
- Gwerth am arian i'r grant cyhoeddi.

NODER: Mae'r blaenoriaethau a'r meini prawf uchod yn gydradd o ran eu pwysiad. Cedwir yr hawl i beidio a dyfarnu grant mewn maes diddordeb os nad yw'r holl feini prawf yn cael eu bodloni.

6 DATBLYGIADAU DIGIDOL

Mae pwyslais cynyddol ar y digidol. Bydd disgwyl i bob ymgeisydd ddangos eu bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i berthynas eu cyhoeddiad â'r byd digidol. Ystyr hynny, yn y cyd-destun hwn, yw os neu sut y bwriedir rhannu **cynnwys** yn ddigidol yn hytrach na chodi ymwybyddiaeth yn gyffredinol. Gall yr ystyriaethau hyn gynnwys:

- i ba raddau mae cyhoeddi digidol yn addas ac yn bosibl?
- a oes modd cyhoeddi'n gyfochrog neu gyhoeddi'n ddigidol-yn-unig?
- samplau am ddim, neu destunau cyflawn a ddarperir?
- os dewisir samplau, a fydd samplau cyflawn o rai erthyglau, neu samplau rhannol o bob erthygl?
- os dewisir darparu testunau digidol llawn, a fyddant ar gael am dâl neu yn rhad ac am ddim?
- ar ba blatfform(au) fydd y testun digidol ar gael: PC, tabled, dyfais symudol, ap Cylchgronau Cymru?
- beth fydd effaith unrhyw newid i'r digidol ar economi'r cylchgrawn?

7 HYFFORDDIANT

Neilltuir swm o tua £5,000 ar gyfer hyfforddiant ar draws y rhaglen gyfan. Gobeithir y bydd hyn yn gyfuniad o gynnis hyfforddiant generig o ran cynhyrchu, dylunio a marchnata traddodiadol a digidol yn ogystal ag ymateb i anghenion penodol y cyhoeddwr a chynnal cyfleoedd iddynt ymgynnull i rannu profiad.

8 NAWDD AC INCWM

Bydd lefel y grant yn anelu at gyrraedd cymhareb gerio o hyd at 2:1. [Hynny yw, byddai cyllid CLIC yn darparu hyd at ddwy ran o dair o gyfanswm incwm y cylchgrawn, gydag o leiaf draean o'r incwm yn cael ei gynhyrchu gan gyhoeddwr y cylchgronau drwy werthiant, cyllid hysbysebu,

nawdd, cyfraniadau anariannol (*'in kind'*) ac yn y blaen. Mae canllaw ar gyfrifo cyfraniadau anariannol ar gael yn yr atodiad i'r ddogfen hon.]

9 SUT A PHRYD I YMGEISIO

- Gofynnir i pawb fynegi diddordeb mewn ymgeisio drwy lenwi **Ffurflen Cam 1** a'i dychwelyd ar ffurf electronig i'r cyfeiriad e-bost isod erbyn 12:00, **12 Hydref 2015**.
- Dylai'r cais llawn gyrraedd yr Adran Grantiau Cyhoeddi **erbyn 17:00, 9 Tachwedd 2015**. Dylai gynnwys:
 - Ffurflen Gais 2.1
 - Ffurflen Incwm a Chostau 2.2
 - **Naill ai** Ffurflen Llif Arian 2.3 (ar gyfer ceisiadau dan £15,000 y flwyddyn) **Neu** Profforma Cyllideb Blynnyddol 2.4.1-10 (ar gyfer ceisiadau dros £15,000 y flwyddyn)
 - Adroddiad ar werthiant 2014-15
 - Copi o gyfrifon archwiledig diweddaraf y cylchgrawn. (Mae cyfrifon heb eu harchwilio yn dderbyniol ar gyfer y rhai sy'n derbyn cymorth grant sy'n llai na £15,000, ac ar gyfer mentrau newydd, gellir cyflwyno datganiad o'r sefyllfa ariannol gyfredol)

Yn ogystal:

- Os ydych yn gwneud cais ar ran cylchgrawn sydd **eisoës yn cael grant**:
 - 8 copi o'ch rhifyn diweddaraf;
 - os bwriedir newid dyluniad neu ddylunydd, neu'n bwriadu creu fersiynau gwahanol ar-lein, dylid cynnwys 8 copi o fraslun manwl neu rifyn ffug o'r cyhoeddiad gyda'r cais;
 - yn achos cyhoeddiadau digidol dylech yrru dolen at y cynnwys diweddaraf a phe dymunech gallech yrru copïau papur o'r cynnwys diweddaraf.
- Os ydych yn ymgeisio am **y tro cyntaf ond gyda chylchgrawn sydd eisoës yn bod**, gyrrwch:
 - 8 copi o'r **tri** rhifyn diweddaraf
 - Os bwriedir newid dyluniad neu ddylunydd neu greu fersiynau gwahanol ar-lein, dylid cynnwys 8 copi o fraslun manwl neu rifyn ffug o'r cyhoeddiad gyda'r cais.
- Os ydych yn **ymgeisio am y tro cyntaf gyda syniad newydd**, boed yn gylchgrawn printiedig, digidol neu gyfuniad, dylid cynnwys 8 copi o fraslun manwl neu rifyn ffug o'r cyhoeddiad gyda'r cais.
- Dylid gyrru 8 copi **papur** o'r cais yn ei gyfanrwydd i'r cyfeiriad isod gyda 'CAIS CYLCHGRONAU CYMRAEG 2016-19' ar yr amlen, ynghyd â chopi ar ffurf electronig ar ffurf Excel i'r cyfeiriad e-bost isod erbyn **17:00 ar 9 Tachwedd 2015**, gyda 'CAIS CYLCHGRONAU CYMRAEG 2016-19' ym maes 'Testun' yr e-bost. Mae derbyn y cais ar amser yn y ddau gyfrwng yr un mor allweddol â'i gilydd.
- Bydd y grantiau'n cael eu dyfarnu gan is-banel o'r Panel Grantiau Cyhoeddi (Cymraeg) a fydd hefyd yn cynnwys aseswyr allanol. Gall yr is-banel ddewis cyfweld unrhyw un o'r ymgeiswyr.

Bydd hyn fwy na thebyg yn digwydd ar ddydd Mawrth 17 Tachwedd 2015. Dylai ymgeiswyr gael dyfarniad yn fuan ar ôl hynny.

- Mae'r grantiau newydd yn weithredol o 1 Ebrill 2016 hyd 31 Mawrth 2019 ac yn ddibynnol ar barhad y cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Ceir ffurflenni cais a gwybodaeth bellach oddi wrth:

Arwel Jones, Adran Grantiau Cyhoeddi, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 2JB

Ffôn: 01970 624151 ffacs: 01970 625385 e-bost: arwel.jones@llyfrau.cymru

Atodiad 1

Canllawiau ar gyfer Cyfraniadau Anariannol (In kind)

Bydd cyfraniadau anariannol (*in kind*) yn cael eu hystyried wrth asesu incwm yr ymgeisydd a phenderfynu ar lefel y grant y gellir ei rhoi, yn unol â'r meini prawf cymhareb arian cyfatebol 2:1, sy'n ofynnol gan Gyngor Llyfrau Cymru. Dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r canllawiau canlynol wrth gyfrifo gwerth eu cyfraniadau anariannol. Bydd angen i chi esbonio i ni sut yr ydych wedi cyfrifo hyn.

- Gall y cyfraniadau gynnwys cyfrifiaduron neu unrhyw offer arall a roddwyd; defnyddio eiddo a roddwyd yn benodol, a darparu gofod swyddfa a chostau cysylltiedig a ddarparwyd gan y sefydliad cynnal. Dylid eu prisio fel a ganlyn: dylid cynnwys offer sy'n cael ei roi yn ôl y pris sy'n cael ei hysbysebu ar y farchnad, os yw'n newydd, neu amcangyfrif rhesymol o'r pris ail law, os nad yw'n newydd. Dylid cyfrifo defnydd o eiddo a ddarparwyd ar gyfer y sefydliad yn ôl gwerth priodol y farchnad; a dylid cyfrifo gofod swyddfa a'r costau cysylltiedig yn cynnwys taliadau ffôn, llungopïo ac ati yn ôl gwerth priodol y farchnad. Os yw hyn yn cael ei rannu gyda defnyddwyr eraill, dylid rhannu'r gost yn gymesur.
- Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd arddangos sut y mae wedi cyfrifo gwerth y farchnad ar gyfer eitemau sy'n cael eu rhentu neu eu prynu. Dylid darparu tystiolaeth o werth y farchnad, yn cynnwys cyfraddau cyhoeddedig ar gyfer llogi eiddo, neu restr o brisiau offer a gwasanaethau.
- Gellir ystyried disgownt cyflenwyr ar gyfer cyfraniadau anariannol, pan fyddant yn dangos cefnogaeth amlwg i'r sefydliad, er enghraifft, disgownt argraffu gan gwmni argraffu yng Nghymru a roddir yn benodol fel cydnabyddiaeth o rôl y sefydliad yn niwylliant Cymru. Ond mae'n rhaid i'r cyflenwr gadarnhau'r disgowntiau sy'n cyd-fynd â'r meini prawf hyn fel disgownt penodol i'r sefydliad fel cyfraniad, yn hytrach na disgownt masnach safonol.
- Gellir cyfrifo cyngor ac arbenigedd arbenigwyr a ddarparwyd am ddim a mathau eraill o lafur gwirfoddol a roddwyd i'r sefydliad fel cyfraniadau anariannol. Gall cyfraddau cyfraniadau llafur gwirfoddol amrywio'n fawr, yn dibynnu ar natur y gwaith sy'n cael ei wneud.
- Dylech gyfrifo'r gyfradd yn ôl gwerth priodol y farchnad am beth fyddai wedi'i gostio i chi logi'r llafur neu'r gwasanaethau sy'n cael eu rhoi. Bydd angen i ni weld tystiolaeth glir o sut rydych wedi cyfrifo'r cyfraddau rydych yn eu defnyddio. Gall eich tystiolaeth gynnwys cyfraddau dyddiol cyhoeddedig am wasanaethau cynghori neu gyngor cyfreithiol, neu amcangyfrifon o beth fyddai cyflogau rhesymol y math o waith sy'n cael ei roi, er enghraifft, dylid cyfrifo cyfradd *intern* yn ôl yr isafswm cyflog, er mwyn adlewyrchu natur weinyddol sylfaenol y rôl. Os bydd *intern* yn cael ei gyflogi fel *quid pro quo* gyda sefydliad cynnal, ni ddylid ystyried hyn fel cyfraniadau mewn nwyddau, oherwydd yn yr achos hwn, mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu i'r cyfranogwr.
- Ni ddylai aelodau o fwrdd cwmnïau cyfyngedig drwy warant (dosbarthiad dielw) dderbyn unrhyw wobrau ariannol am eu dyletswyddau disgwylidiedig fel aelod o'r bwrdd. Os bydd aelod o fwrdd yn rhoi llafur neu wasanaethau gwirfoddol, byddant yn dechnegol yn derbyn swm ariannol am y llafur neu'r gwasanaeth hwn, oherwydd eu gwerth ariannol. Felly, bydd unrhyw lafur neu wasanaethau gwirfoddol a roddir gan aelodau o fwrdd cwmnïau cyfyngedig drwy warant, ond yn cael ei ystyried os bydd y gwaith y tu hwnt i'w dyletswyddau disgwylidiedig arferol fel aelod o'r bwrdd, ac y gellir profi'n glir nad yw'n cynrychioli gwrthdaro buddiannau.